OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 3158

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004

**Ymgynghori cyn y dyddiad cychwyn**

**11.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys —

(a) os yw'n ofynnol bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal o dan un o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn; a

(b) os, o fewn y cyfnod o chwe mis sy'n dod i ben ar y diwrnod y mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym, y bydd ymgynghoriad wedi'i gynnal a hwnnw'n un a fyddai wedi bodloni gofynion y ddarpariaeth honno i unrhyw raddau pe bai wedi bod mewn grym.

(2) Rhaid cymryd bod y gofynion hynny wedi'u bodloni i'r graddau hynny.